Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru | Democracy and Boundary Commission Cymru

**Adolygiad Cymunedau Sir Gaerfyrddin: Datganiad o'r Penderfyniad**

**Cefndir yr Adolygiad Cymunedau**

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen gwneud newidiadau i ardaloedd cymunedol oherwydd newidiadau yn y boblogaeth. Gall newidiadau o'r fath olygu newidiadau i ffin y gymuned a, lle bo cyngor cymuned yn bodoli, newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer y cyngor cymuned. Cyflawnir y newidiadau hyn yn bennaf drwy adolygiadau cymunedau a gynhelir dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (y Ddeddf).

Dylai adolygiad o ffiniau cymunedau dan adran 25 sicrhau bod cymunedau'n parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol a hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Er enghraifft, dros amser gall cymunedau ehangu gyda datblygiadau tai newydd. Gall hyn arwain at ffiniau anghyson, er enghraifft os yw tai newydd yn cael eu hadeiladu ar draws ffiniau, sy'n arwain at ddryswch ynghylch i ba gymuned y mae stad o dai yn perthyn. Mae adolygiad cymunedau yn cynnig cyfle i'r prif gyngor sefydlu ffiniau pendant sydd wedi'u diffinio'n glir ac sy'n gysylltiedig â nodweddion y tir, a dileu unrhyw ffiniau anghyson sy'n bodoli.

Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch sut i gynnal adolygiadau cymunedau, sydd ar gael ar ei wefan.

**Y broses gyfreithiol**

Mae'r Ddeddf yn rheoleiddio:

- y broses ar gyfer cynnal adolygiadau cymunedau;
- canlyniad adolygiadau cymunedau; a
- gweithredu'r newidiadau a gynigir ar ddiwedd adolygiadau cymunedau.

Mae adrannau 35 a 36 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor sy'n cynnal adolygiad cymunedau gymryd pedwar cam hanfodol:

- Cyhoeddusrwydd cychwynnol;
- Ymchwiliad ac ymgynghoriad cychwynnol;
- Cynigion drafft (ac ymgynghoriad ar y cynigion hynny); ac
- Argymhellion terfynol

Ar ddiwedd adolygiad ffiniau adran 25, gall y prif gyngor argymell "newidiadau i ffiniau cymunedau". Diffinnir y rhain yn adran 23(4) y Ddeddf fel rhai sy'n cynnwys newidiadau i ffin cymuned sy'n bodoli eisoes, ond hefyd dileu cymuned sy'n bodoli eisoes a chreu cymuned newydd.

Y Comisiwn yw'r "awdurdod gweithredu" ar gyfer adolygiadau ffiniau adran 25. Felly, ar ôl cwblhau adolygiad adran 25, mae'n ofynnol i'r prif gyngor gyflwyno ei adroddiad i'r Comisiwn.

Ar ôl cael adroddiad y prif gyngor, mae gan y Comisiwn ddewis:

- gall weithredu argymhellion y prif gyngor heb addasiadau;

- gall weithredu’r argymhellion gydag addasiadau a gaiff eu cytuno gyda’r prif gyngor;
- gall ddewis cynnal ei adolygiad ei hun; neu
- gall beidio â chymryd unrhyw gamau.

Yn bwysig, mae’r gyfraith yn mynnu na fydd y Comisiwn yn rhoi argymhelliad ar waith oni bod ei fod yn fodlon bod gwneud hynny er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

**Penderfyniad**

Wrth wneud ei benderfyniad, bu’n rhaid i’r Comisiwn benderfynu yn gyntaf a yw’r prif gyngor wedi cydymffurfio â gofynion y Ddeddf a’r trefniadau manwl a geir yn y ddogfen Cylch Gorchwyl y cytunwyd arni.  Mae’r Comisiwn yn fodlon bod y prif gyngor wedi bodloni’r gofynion hyn.

Yna, ystyriodd y Comisiwn yr argymhell unigol a’r sylwadau a gafwyd mewn perthynas â’r argymhelliad.

Mae’r Comisiwn wedi penderfynu gweithredu’r argymhelliad a gyflwynwyd gan y prif gyngor.

**Argymhellion a gyflwynwyd gan y prif gyngor**

- Trosglwyddo gweddillion Abaty Whitland a'r tir cyfagos a berchnir gan Esgobaeth Menevia o ward Pontyfenni o Gymuned Llanboidy i ward Gogledd o Gymuned Whitland. (map 1)

**Newidiadau Canlyniadol i Wardiau Etholiadol**

Bydd y Comisiwn yn cymhwyso newidiadau canlyniadol i wardiau etholaethol Llanboidy a Whitland i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan y newidiadau uchod i ffiniau'r gymuned.

Bydd y newidiadau'n cael eu hadlewyrchu mewn gorchymyn gweithredu a byddant yn dod i rym yn etholiadau llywodraeth leol nesaf.

Map 1

# Ardal i drosglwyddo o Bontyfenni (Llanboidy) i Gogledd (Hendy-gwyn ar Daf)

